Y BANC

Deunydd Darllen

Canolradd (De)

Chwarae'r Gêm - Act 5

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 7.)

Mae Michael Jones yn cyrraedd y tŷ gyda'r nos. Mae ei chwaer, Anwen, yn aros amdano.

Anwen: Michael. Ble rwyt ti wedi bod?

Michael: Yn ymarfer yn y clwb. Pam?

Anwen: Gyda phlaster ar dy droed?

Michael: Mae'n bosib ymarfer heb redeg o gwmpas. Beth bynnag, does dim byd yn bod ar fy nhroed!

Anwen: Dw i'n gwybod! A does neb yn amau dim?

Michael: Nac oes.

Anwen: Rhaid bod rhywun yn amau.

Michael: Does neb yn amau. Ust! Unrhyw negeseuon?

Anwen: Oes. Ffoniodd rhyw newyddiadurwr.

Michael: Beth ddwedodd e?

Anwen: Dim llawer. Roedd e eisiau dod i wneud stori – Local Boy Comes Good…

Michael: Dim eto!

Anwen: Wedyn, ffoniodd Denzil.

Michael: Beth ddwedodd e?

Anwen: Dim.

Michael: Rhaid bod gêm heno yn y casino.

Anwen: Paid â mynd, Michael. Rwyt ti'n gamblo gormod o lawer.

Michael: Paid â swnian, Anwen. Mae digon o arian gyda ni ac mae mwy yn dod y mis nesa.

Anwen: Y mis nesa?

Michael: Mae Caerddinas yn mynd i ennill pob gêm dros yr wythnosau nesa, Anwen. Bydd pawb yn hapus. Wedyn, y mis nesa mae gêm yn erbyn Fanelhagen…

Anwen: A bydd Caerddinas yn colli….?

Michael: Bydd Caerddinas yn colli. Dyna drueni!

Geirfa

Amau – to suspect

Unrhyw negeseuon – any messages

Swnian – to nag